| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

ENTRY LEVEL CERTIFICATE

725/51

**Tystysgrif Lefel Mynediad**

**ASTUDIAETHAU GRAFFEG A DEFNYDDIAU**

**(Crefft Coed)**

P.M. DYDD IAU, 23 Mawrth 2006

(½ Awr)

**Arholwr yn unig**

| **Cyfanswm y marciau** | |
|---|---|

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Tanlinellwch yr ateb cywir **neu** rhowch gylch o'i amgylch **neu** ysgrifennwch yn y lleoedd gwag a ddarperir yn y llyfryn hwn.

Os nad ydych yn gallu darllen cwestiwn, codwch eich llaw a bydd yr athro/athrawes yn ei ddarllen i chi.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae **pob** cwestiwn yn werth **pum** marc.


Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

*Tanlinellwch* **neu** *rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir* **neu** *ysgrifennwch yn y lleoedd gwag a ddarperir.*

**1.** Mae'r erfyn *(tool)* a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell Ddylunio a Thechnoleg.



Mae'r erfyn a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Befel llithr;

*(b)* Sgwâr T;


*(c)* Sgwâr profi;

*(ch)* Sgwâr meitro.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2.** Mae'r erfyn a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio i wneud twll mewn darn o bren.



Mae'r erfyn a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Dril llaw;

*(b)* Mynawyd *(bradawl)*;

*(c)* Carntro ac ebill saer;


*(ch)* Tyllydd tyllau hir.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3.** Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am hogi llafn plaen.

Mae'r braslun isod yn dangos cam yn y broses hogi.



Mae'r cam yn y broses hogi yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Llifanu cefn y llafn;

*(b)* Cefnu'r min *(backing off the burr)*;


*(c)* Llathru cefn y llafn;

*(ch)* Glanhau'r garreg hogi ar ôl hogi.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Mae'r braslun isod yn dangos diffyg (bai) ar ddiwedd boncyff.



Mae'r diffyg (bai) ar ddiwedd y boncyff yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Hollt cwpan;

*(b)* Hollt taran;


*(c)* Hollt coed;

*(ch)* Hollt seren.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**5.** Mae'r braslun isod yn dangos Tyno.



Mae'r saeth yn pwyntio at **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Hasb;


*(b)* Colfach;


*(c)* Llaw;


*(d)* Hans.


**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**6.** Mae'r brasluniau isod yn dangos uniad a **thri** (3) math o blaen.








*(a)* **Rhowch gylch** o amgylch y plaen y byddech chi'n ei ddefnyddio i wneud dwy ran yr uniad. [2]

*(b)* **Ysgrifennwch** enw'r plaen ar y llinell isod. [3]

Enw'r plaen yw ........................................................................................................

Examiner only *Arholwr yn unig*

**7.** Mae'r braslun isod yn dangos uniad hoelbren a golwg wedi'i helaethu *(enlarged view)* o hoelbren.




Mae gan yr hoelbren rigol wedi'i thorri ar ei hyd ar gyfer **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* caniatáu i awyr a glud ddianc;

*(b)* ei helpu i ffitio i mewn i'r twll;


*(c)* achos bod yr hoelbren wedi'i wneud fel hyn;

*(ch)* cafodd y toriad llif ei wneud yn y lle anghywir.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**8.** Mae'r erfyn a ddangosir isod yn Sandiwr Orbitol sy'n cael ei ddefnyddio yn yr ystafell Ddylunio a Thechnoleg.



Mae'r Sandiwr Orbitol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Sandio i mewn i gorneli;

*(b)* Sandio arwynebau gwastad;


*(c)* Sandio siapiau crwm;

*(ch)* Sandio bowlen ar durn.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**9.** Mae'r braslun isod yn dangos darn o bren sydd â'r cornel wedi'i blaenio i ffwrdd.




Mae hyn yn cael ei alw'n **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Befel;

*(b)* Llethr;


*(c)* Siamffer;

*(ch)* Cyfwyneb.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**10.** Mae'r braslun isod yn dangos Bwrdd Gwneud *(Man-made Board)*.



Mae'r Bwrdd Gwneud yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Blocfwrdd;

*(b)* MDF;


*(c)* Caledfwrdd;

*(ch)* Bwrdd sglodion.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**11.** Mae'r erfyn a ddangosir isod yn fath arbennig o blaen sy'n cael ei ddefnyddio yn yr ystafell Ddylunio a Thechnoleg.



Mae'r erfyn uchod yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Plaen rabadu;

*(b)* Plaen jac;


*(c)* Plaen dyfnder;

*(ch)* Rhasgl.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**12.** Mae un dull (ffordd) o dorri coed yn blanciau yn cael ei ddangos isod.



Mae'r dull (ffordd) o dorri coed yn blanciau yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Llifiad trwodd a thrwodd *(through and through)*;

*(b)* Llifiad hir;

*(c)* Llifiad cadwyn;


*(ch)* Llifiad rheiddiol.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]




**Trosodd.**

**13.** Mae’r brasluniau isod yn dangos cwt cwningen a **thri** (3) math o hoelen.




(ii) 

(i) 

(iii) 


*(a)* **Rhowch gylch** o amgylch yr hoelen y byddech chi’n ei defnyddio i gydio *(attach)* y FFELT wrth y to. [2]


*(b)* **Ysgrifennwch** enw’r hoelen ar y llinell isod. [3]


Enw’r hoelen yw ..............................................................................................................


Examiner only
*Arholwr yn unig*

**14.** Mae'r brasluniau isod yn dangos ffrâm sydd wedi'i gludio at ei gilydd a **thri** (3) math o gramp.










*(a)* **Rhowch gylch** o amgylch y cramp y byddech chi'n ei ddefnyddio i ddal y ffrâm at ei gilydd wrth i'r glud sychu. [2]

*(b)* **Ysgrifennwch** enw'r cramp ar y llinell isod. [3]

Enw'r cramp yw ..............................................................................................................

**15.** Mae'r braslun isod yn dangos dau (2) fwrdd wedi'u huno *(joined)* at ei gilydd er mwyn gwneud un (1) bwrdd llydan ar gyfer top bwrdd coffi.




Mae'r enw ar yr uniad sy'n cael ei ddefnyddio i uno'r ddau (2) fwrdd a ddangosir uchod yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Uniad wedi'i ludio;


*(b)* Uniad gwastad;


*(c)* Uniad mortais a thyno;


*(ch)* Uniad bôn.


**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]


**16.** Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am dorri bwrdd sglodion â llif. Mae'r bwrdd i'w dorri ar hyd y llinell **A-B**.










*(a)* **Rhowch gylch** o amgylch y llif y byddech chi'n ei defnyddio. [2]

*(b)* **Ysgrifennwch** enw'r llif ar y llinell isod. [3]

Byddwn i'n defnyddio ........................................................................ i dorri ar hyd y llinell.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**17.** Mae'r braslun isod yn dangos rhannau o set o silffoedd llyfrau a'r uniad yn (A) .




Mae'r enw ar yr uniad (A) yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Uniad rabad;

*(b)* Uniad haneru croes;


*(c)* Uniad rhigol draws trwodd;


*(ch)* Uniad hoelbren.


**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]


Examiner only
*Arholwr yn unig*

**18.** Mae'r brasluniau isod yn dangos blwch wedi'i wneud o bren haenog sydd â thyllau wedi'u torri allan o'r ochrau a **thri** (3) erfyn pŵer.










*(a)* **Rhowch gylch** o amgylch yr erfyn pŵer y byddech chi'n ei ddefnyddio i dorri allan y tyllau yn ochr y blwch. [2]

*(b)* **Ysgrifennwch** enw'r erfyn pŵer ar y llinell isod. [3]

Enw'r erfyn pŵer yw ..............................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**19.** Mae'r brasluniau isod yn dangos ffrâm fach, sydd â thyllau wedi'u drilio i mewn iddi a'r erfyn a gafodd ei ddefnyddio i ddrilio'r tyllau.






Mae'r erfyn a gafodd ei ddefnyddio i wneud y tyllau yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Dril dirdro;

*(b)* Ebill canoli;


*(c)* Dril echel;

*(ch)* Ebill gwrthsoddi.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**20.** Mae'r erfyn a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio i ddrilio twll mewn darn o bren.



Ar y llinellau isod, **ysgrifennwch bump** (5) o reolau diogelwch y dylech chi gadw atyn nhw wrth ddefnyddio'r dril trydan. [5]

(i) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

(iii) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

(iv) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

(v) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................